| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| **DYDDIAD** | **25 TACHWEDD 2011** |
| **PWRPAS** | **Penderfynu ar ymateb y Gronfa Bensiwn i'r Ymgynghoriad CLG ar gyflawni arbedion o £900m o fewn y cynllun pensiwn llywodraeth leol erbyn 2014-15 drwy gynnydd arfaethedig i gyfraddau cyfraniad y gweithiwr a newidiadau i gyfraddau croniadau'r cynllun, yn weithredol o 1 Ebrill 2012 yn Lloegr a Chymru.** |
| **TEITL** | **YMGYNGHORIAD CLG AR Y NEWIDIADAU I GYNLLUN PENSIWN LLYWODRAETH LEOL** |
| **AWDUR** | **DILWYN WILLIAMS, CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL** |

## 1. Cefndir

Mae'r Llywodraeth yn cynnig newidiadau i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) er mwyn cyflawni arbedion yn y tymor byr o £900m yng nghronfeydd CPLlL erbyn 2012-15. Mae'r cynigion a gyhoeddwyd ar 7 Hydref 2011 ar gyfnod o ymgynghoriad ar hyn o bryd hyd at 6 Ionawr 2012.

Mae'r cynigion hyn yn dilyn argymhellion adroddiad interim yr Arglwydd Hutton ar ddyfodol pensiynau gwasanaethau cyhoeddus. Argymhellodd mai'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflawni arbedion yn y tymor byr fyddai codi cyfraddau cyfraniad y gweithiwr.

Mae'r Llywodraeth hefyd yn ystyried newidiadau hirdymor i bensiynau cyhoeddus ac mae'r cynigion diweddar ynghylch cyfraddau croniadau a diogelu i'r rhai sy'n disgwyl ymddeol o fewn deng mlynedd i 1 Ebrill 2012 yn perthyn i'r ystyriaethau hirdymor. Nid yw'n glir sut fydd y cynigion i gyflawni arbedion o £900m yn y tymor byr sy'n ofynnol gan y Llywodraeth, yn gweddu i'r cynlluniau hirdymor sy'n parhau i gael eu hystyried.

## 2. Cynigion y Llywodraeth

2.1 Nododd y Llywodraeth rhai gofynion ar gyfer y newidiadau arfaethedig ym mis Gorffennaf 2011 fel a ganlyn:

- Ni ddylid cael cynnydd yng nghyfraniad y gweithiwr i'r rhai sy'n ennill llai na £15,000.
- Ni ddylid cael cynnydd o fwy na chyfanswm o 1.5% erbyn 2014-15 i'r rhai sy'n ennill hyd at £21,000. Mae hyn yn arwain at gynnydd o 0.6% yn 2012-13 ar sail pro-rata.
- Dylai'r rhai ar gyflog uchel sy'n aelodau o'r CPLl dalu mwy'n raddol na'r rhai mewn band cyflog is, ond dim mwy na 6% (cyn gostyngiad treth) o'u cyflog.

2.2 Mae'r papur ymgynghori yn amlinellu dau opsiwn ar gyfer cyflawni'r arbedion o £900m erbyn 2012-15 (3% o'r tâl pensiynadwy a ragwelir).

2.3 Mae opsiwn 1 yn cynnwys dwy elfen ar wahân fel a ganlyn;

- Cynnydd yng nghyfraniad y gweithiwr o fis Ebrill 2012, i godi £450m ychwanegol (1.5%)
- Newid yng nghyfradd groniadau'r cynllun o fis Ebrill 2013 o un rhan o 60 cyfredol i un rhan o 64 yn 2013/14 ac un rhan o 65 yn 2014/15, i godi £450m ychwanegol (1.5%).

2.4 Mae opsiwn 2 yn cynnwys dwy elfen ar wahân fel a ganlyn;

- Cynnydd yng nghyfraniad y gweithiwr o fis Ebrill 2012, i godi £300m ychwanegol (1%)
- Newid yng nghyfradd croniadau'r cynllun o'r un rhan o 60 cyfredol i un rhan o 67 o 1 Ebrill 2014 er mwyn codi £600m ychwanegol (2%)

2.5 Yn ychwanegol, argymhellodd yr Arglwydd Hutton y gellid cysylltu'r oed pensiwn yn y cynlluniau sector cyhoeddus i'r Oed Pensiwn Gwladol. Yn ôl Actwari'r Llywodraeth byddai hyn yn cyflawni arbedion blynyddol o £330m pe bai'n cael ei weithredu ar gyfer croniadau gwasanaeth yn y dyfodol. Gallai mesurau i gyflawni'r arbedion angenrheidiol a oedd yn weddill gynnwys cyfuniad o newidiadau i gyfradd croniad a chyfraniadau'r gweithiwr.

2.6 Mae'r Llywodraeth yn cynnig gwneud addasiadau statudol i'r rheoliadau pensiynau cyfredol i alluogi diwygiad i lawr o gyfraddau cyfraniad y cyflogwr rhwng prisiad actwari bob tair blynedd er mwyn sicrhau bod cyflogwyr CPLlL a threthdalwyr yn manteisio o'r arbedion a gyflawnwyd.

## 3. Cynigion Eraill

3.1 Cyflwynodd y Grŵp Llywodraeth Leol ei becyn arbedion arfaethedig i'r Ysgrifennydd Gwladol ym mis Medi 2011.

3.2 Crynhowyd eu cynigion fel a ganlyn:

- Codi oedran ymddeol pawb o flwyddyn.
- Cyfuniad o newidiadau yng nghyfraddau'r croniadau a'r cyfraniadau.
- Amddiffyn neu leihau cyfraniadau i aelodau ar gyflog is.
- Newid yn y cyfraniadau dros y strwythur cyfraniadau gweithiwr presennol gyda chyfraniadau ychwanegol is i'r rhai ar gyflog uwch o gymharu a'r hyn a gynigir gan y Llywodraeth.
- Cynnig i weithwyr leihau eu cyfradd groniadau i gael cyfradd gyfrannu is.

## 4. Materion sy'n codi o'r cynigion

4.1 Byddai'r cynigion a amlinellwyd uchod yn effeithio'n sylweddol ar Gronfeydd CPLlL unigol.

4.2 Byddai unrhyw gynnydd yng nghyfraniadau'r gweithiwr a gostyngiad mewn buddion yn arwain at gynnydd yng nghyfradd y drefn eithrio. Er y dylai cynigion sy'n osgoi'r cyfartaledd cynnydd llawn o 3.2% yng nghyfraniad y gweithiwr gynorthwyo i leihau'r nifer o bobl sy'n eithrio o'r cynllun, mae'n debygol y byddai nifer arwyddocaol o bobl yn ystyried bod y cynllun yn rhy ddrud neu'n anfforddiadwy. Byddai unrhyw gynnydd yn lefelau'r drefn eithrio'n effeithio ar lif arian a'r cyflogwr fyddai'n gorfod talu'r costau.

4.3 Mae'r cynigion yn ymdrechu i warchod yr aelodau ar gyflog is, ond byddai unrhyw newid yn y gyfradd groniadau yn cael effaith uniongyrchol ar y grŵp hwn er na fyddai eu cyfraddau cyfraniadau yn cael eu heffeithio.

4.4 Byddai'r cynigion hefyd yn rhoi straen ychwanegol arwyddocaol ar weinyddwyr y cynllun. Byddai'n rhaid iddynt weithredu newidiadau yn y tymor byr i'r cyfraddau cyfraniadau a chroniadau, i'r cofrestru awtomatig ac i ddiwygiadau adroddiad terfynol Hutton yn 2015.

4.5 Byddai'r newidiadau interim yn cynyddu cymhlethdod i weinyddwyr ac aelodau ac felly byddai'n ddelfrydol pe gellid uno'r newidiadau hyn â diwygiadau terfynol adroddiad Hutton.

4.6 Mae cyfathrebu clir â'r aelodau'n hollbwysig i sicrhau eu bod yn deall bod pensiynau gwasanaethau cyhoeddus yn parhau i fod yn un o'r goreuon yn y DU er gwaethaf y newidiadau cymhleth, a bod ganddynt lawer i'w golli wrth ddewis y drefn eithrio.

4.7 Er bod y Llywodraeth yn cynnig newid i'r ddeddfwriaeth i ganiatáu adolygiad i ostwng cyfraniad y gweithiwr cyn y prisiad actwari teirblwydd nesaf efallai na fyddai'n addas i gronfeydd wneud hyn, yn enwedig o gofio'r dirywiad yn amodau'r farchnad ers y prisiad yn 2010. Hyd yn oed pe bai cyfraniadau'n parhau ar y lefelau presennol hyd ddiwedd y prisiad nesaf, byddai'r newidiadau arfaethedig yn arbed arian i'r cyflogwyr ac i'r trethdalwyr yn yr hirdymor ac o gymorth i osgoi cynnydd uwch mewn cyfraniadau yn y dyfodol.

## 5. Ymatebion i'r Ymgynghoriad

5.1 Gofynnir am farn ffurfiol yr ymgynghorai ar y cynigion a amlinellir uchod erbyn 6 Ionawr 2012.

5.2 Mae'r papur ymgynghori'n gofyn am farn yr ymgynghorai ac unrhyw dystiolaeth ynghylch bob agwedd o'r ymgynghoriad statudol hwn yn enwedig i'r cwestiynau a ganlyn:

**Cwestiwn 1** – A yw'r cynigion yn bodloni'r polisi a'r amcanion i gyflawni'r lefel angenrheidiol o arbedion yn y CPLlL?

**Cwestiwn 2** – A oes unrhyw ganlyniadau neu agweddau o'r cynigion sydd heb gael eu trafod yn llawn?

**Cwestiwn 3** – A oes tariff neu fesurau gwahanol ym marn yr ymgynghorai a fyddai'n gymorth i leihau mwy ar y nifer sy'n eithrio o'r cynllun?

**Cwestiwn 4** – A oes materion cydraddoldeb a allai arwain at y cynigion yn cael effaith sylweddol ar grwpiau unigol? Os oes, beth a ystyrir yw natur a maint yr effaith sylweddol hwn? Pa ddatrysiadau a fyddech yn eu hawgrymu?

**Cwestiwn 5** – O fewn y cyfnod ymgynghori, gwahoddir barn yr ymgynghorai ar y posibilrwydd o gyflwyno cyswllt rhwng oedran pensiwn y wladwriaeth a'r CPLlL fel yr argymhellwyd i'r Llywodraeth yn adroddiad yr Arglwydd Hutton.

## 6. Ymateb Cronfa Bensiwn Gwynedd i'r Ymgynghoriad

**Cwestiwn 1** – A yw'r cynigion yn bodloni'r polisi a'r amcanion i gyflawni'r lefel angenrheidiol o arbedion yn y CPLlL?

Bydd unrhyw arbedion yn amodol ar newidiadau i gyfradd y drefn eithrio yn dilyn y cynnydd yng nghyfraniadau y gweithwyr. Mae hyn yn ymwneud ag aelodau presennol sy'n dewis cael eu heithrio wedi gweld na allent fforddio cyfraniadau yn y dyfodol a phenderfyniad gweithwyr newydd i beidio ag ymuno â'r cynllun. Gall hyn arwain at oblygiadau mawr ar gyflawni arbedion disgwyliedig.

Byddai cyfraddau uwch o aelodau yn eithrio o'r cynllun yn effeithio ar lif arian y Gronfa gyda rheolaeth gynnar dros fuddsoddiadau ac enillion i sicrhau bod arian ar gael yn rhwydd i bontio unrhyw ddiffyg mewn cyfraniadau i dalu buddion ymddeol.

**Cwestiwn 2** – A oes unrhyw ganlyniadau neu agweddau o'r cynigion sydd heb gael eu trafod yn llawn?

Cyfraddau eithrio / dim ymuno yn unol â'r ymateb i gwestiwn un.

Baich gweinyddu ychwanegol i gynnal gwybodaeth yn seiliedig ar 11 o fandiau cyfrannu yn hytrach na 7 (i Gronfeydd Pensiwn a chyflogwyr).

Byddai'r cynnydd sylweddol yng nghymhlethdod y cynllun am gyfnod interim byr yn denu cost anghyfartal a phroblemau cyfathrebu.

Mwy o weinyddu a chostau wrth ymarfer rhwng prisiad i sefydlu cyfraddau gweithiwr diwygiedig ar draws pob cronfa yn dilyn gweithredu unrhyw gynnydd yng nghyfraniadau'r gweithiwr.

A fydd hi'n orfodol i Gronfeydd Pensiwn drosglwyddo'r gostyngiadau i'r cyflogwyr? A fyddai hyn ond yn orfodol i gyflogwyr a ariennir yn uniongyrchol gan y Llywodraeth neu a fyddai'n orfodol i'r holl gyflogwyr?

**Cwestiwn 3** – A oes tariff neu fesurau gwahanol ym marn yr ymgynghorai a fyddai'n gymorth i leihau mwy ar y nifer sy'n eithrio o'r cynllun?

Mae cyfathrebu'n effeithiol ag aelodau a chyflogwyr y Cronfeydd yn hanfodol i sicrhau eu bod yn deall y buddion sydd ar gael ac i leihau pryder am y newidiadau.

**Cwestiwn 4** – A oes materion cydraddoldeb a allai arwain at grwpiau unigol yn cael eu heffeithio'n sylweddol gan y cynigion? Os oes, beth a ystyrir yw natur a maint yr effaith sylweddol hwn? Pa ddatrysiadau a fyddech yn eu hawgrymu?

Cyfyd y cwestiwn ynghylch cydraddoldeb rhwng cynlluniau sector cyhoeddus gwahanol - a fydd gweithwyr ar lefelau cyflog tebyg yn wynebu talu cyfraniadau gweithwyr tebyg ar draws yr holl gynlluniau? e.e. athrawon a gweithwyr cymdeithasol, yn enwedig o gofio'r lefelau uwch o gyflogau o dan £15k a £21k yn y CPLlL fyddai'n rhoi pwysau anghyfartal ar y rhai sy'n ennill cyflog canolradd i uchel o gymharu â demograffeg cynlluniau sector cyhoeddus eraill e.e. cynllun athrawon?

Dylai unrhyw gyswllt ag oedran pensiwn y wladwriaeth gyd-fynd â chynlluniau pensiwn eraill y sector gyhoeddus.

Byddai'r opsiwn i gymysgu gostyngiadau yng nghyfraddau croniadau a chynnydd yng nghyfraddau cyfraniadau'n effeithio'n sylweddol ar y rhai ar gyflog is oherwydd byddai gostyngiadau yn y gyfradd groniadau'n cael effaith o'i cymharu â'r amddiffyniad byddent yn ei dderbyn o gynnydd mewn cyfraniadau.

**Cwestiwn 5 –** O fewn y cyfnod ymgynghori, gwahoddwyd barn yr ymgynghorai ar y posibilrwydd o gyflwyno cyswllt rhwng oedran pensiwn y wladwriaeth a'r CPLlL fel yr argymhellwyd i'r Llywodraeth yn adroddiad Arglwydd Hutton.

O ystyried fod pobl yn byw'n hwy ymddengys ei bod yn rhesymegol i gysylltu oedran ymddeol y CPLlL ag oedran pensiwn y wladwriaeth yn y dyfodol. Dylai unrhyw gyswllt ag oedran pensiwn y wladwriaeth hefyd i gyd-fynd â chynlluniau pensiwn eraill y sector gyhoeddus.

**Sylwadau cyffredinol**

Gan fod pobl sy'n byw'n hwy yn effeithio ar y gost i gronfeydd pensiwn byddai'n briodol i leihau'r gyfradd groniadau ar y cyd â chysylltu'r oedran ymddeol arferol i oedran pensiwn y wladwriaeth – mae'n debyg y bydd gweithwyr yn gweithio am yn hwy ac felly bydd gennym gyfle i gynyddu'r nifer o flynyddoedd y byddent yn cyfrannu a fyddai'n gwneud iawn am y gostyngiad yn y gyfradd groniadau. Byddai hyn yn galluogi cynnydd llai i gyfraniadau gweithwyr a ddylai leihau'r nifer o bobl sy'n eithrio o'r cynllun oherwydd i newidiadau.

Byddai'r cynnig gan y Grŵp Llywodraeth Leol i alluogi aelodau i ddewis cyfradd groniadau is ar gyfer cyfraniadau is yn peri problemau gweinyddu a chyfathrebu arwyddocaol. Mae baich gweinyddu trwm ar y cyflogwyr eisoes ac mae ansawdd y wybodaeth a derbynnir gan y Gronfa Bensiwn yn amrywio rhwng cyflogwyr. Byddai rhoi'r dewis i weithwyr ynghylch faint i dalu yn gwneud y gwaith hyd yn oed yn fwy cymhleth.

Mae hefyd yn rhagdybio y byddai cyfraniadau ychwanegol y gweithiwr wastad yn ariannu cost y gyfradd groniadau ychwanegol – pe na byddai hyn yn wir byddai costau ychwanegol i'r cyflogwr.

Byddai'r opsiwn o gyfraddau cyfraniadau gwahanol yn peri problemau crynhoi data ychwanegol ar gyfer prisiadau actwari ac adroddiadau actwari blynyddol at ddibenion cyfrifon (adroddiadau IAS19 / FRS17).

Mae'r cynigion hefyd yn cynnwys y posibilrwydd y gall rhai gweithwyr ar gyflog isel orfod talu cyfradd is na'r hyn y maent yn ei thalu ar hyn o bryd pe baent yn dewis cyfradd groniadau is. Er y dylid gwarchod gweithwyr sydd ar gyflog is, a yw'r ffaith y gallent leihau eu cyfraniadau'n deg?

## 7. Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo ymateb y Gronfa Bensiwn i'r ymgynghoriad sydd i'w gyflwyno cyn y dyddiad cau.